

Bwrdd Cymwysterau Cymru QWB29E

Cofnodion cyfarfod Eithriadol a gynhaliwyd ar 30 Mehefin

Mynychwyr:

David B Jones (Cadeirydd), Philip Blaker, Isabel Nisbet, Ellen Donovan, David Jones, Caroline Burt, Robert Lloyd Griffiths, Jayne Woods, Anne Marie Duffy.

Yn Bresennol:

Jo Richards (JR), Tom Anderson (TA), Mark Hogan (MH), Kate-Stokes Davies (KSD), Kay Powell (EKP), Kerry Davies (KD), Alison Standfast (AS), Cassy Taylor (CT), Emyr George (EG), Jo Valentine (JV) - Llywodraeth Cymru, Helen Murray (HM) Cofnodwr.

Ymddiheuriadau:

Nid oedd Angela Maguire-Lewis, Arun Midha a Claire Morgan yn bresennol ar ôl datgan bod buddiannau'n gwrthdaro.

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
- 1.2. Adroddodd y Cadeirydd nad oedd tri aelod o'r Bwrdd yn bresennol ar ôl datgan bod buddiannau'n gwrthdaro. Gofynnwyd am ddatganiadau pellach. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau pellach o fuddiant.

2. Diweddariad Cyfres Arholiadau 2021

- 2.1. Rhoddodd JR ddiweddariad llafar i'r Bwrdd ar y dull arfaethedig o ymdrin â threfniadau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2021. Roedd y dull arfaethedig yn cydfynd â'r dull a gymerwyd eleni gyda Chymwysterau Galwedigaethol, lle byddai addasiadau'n cael eu gwneud i wneud asesiadau'n fwy hylaw. Cynigiwyd y byddai amodau arbennig yn cael eu rhoi i CBAC, gan roi'r egwyddorion y gallent wneud newidiadau priodol i gymwysterau unigol yn eu herbyn.
- 2.2. Esboniodd JR mai'r bwriad oedd cynhyrchu dogfen Reoleiddiol i nodi'r meini prawf y byddai angen i CBAC weithio oddi mewn iddynt (e.e. dylid cynnal cydbwysedd o ran amcanion asesu, ni ddylai diwygiadau beryglu dilysrwydd na dibynadwyedd cymhwyster, dylai asesu dargedu dosbarthiad llawn y graddau, ystyried rheolau caniatool eraill y gellid eu cymhwyso e.e. llyfr agored, addasiadau i amseriadau

- asesiadau). Pwysleisiodd JR y byddai CBAC, o dan y dull hwn, yn cymryd cyfrifoldeb am y pynciau a'r cymwysterau unigol gan ddefnyddio'r ddogfen fframwaith hon.
- 2.3. Esboniodd JR fod CBAC, ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau, yn cynnig dewisoldeb yn yr heriau fel na fyddai'n ofynnol i ddysgwyr ymgymryd â phob un o'r pedair her.
 - 2.4. Adroddodd JR fod CBAC, ar gyfer TGAU, yn bwriadu ymgynghori ag athrawon ar newidiadau arfaethedig o fewn yr wythnosau nesaf. Byddai ymgynghoriad ar wahân ar Safon Uwch yn dilyn yn fuan wedyn.
 - 2.5. Roedd yn bwysig bod athrawon yn gwybod am unrhyw addasiadau cyn gynted â phosibl a chyn diwedd tymor yr haf fel y gallent ddefnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio. Esboniodd JR, pe bai Cymwysterau Cymru'n cymeradwyo newidiadau i bob cymhwyster, y byddai'r broses hon yn mynd ymhell i Dymor yr Hydref, a dyna felly pam y cynigiwyd mai CBAC fyddai'n gyfrifol am y trefniadau ar gyfer y gwahanol gymwysterau, gan ddefnyddio meini prawf a bennwyd gan Gymwysterau Cymru.
 - 2.6. Ceisiwyd adborth ar y dull cyffredinol ac esboniwyd y byddai angen cyflwyno rheoliadau i gefnogi'r dull gweithredu i'r Pwyllgor Rheoleiddio i'w cymeradwyo.
 - 2.7. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am amseriad yr arholiadau yn haf 2021. Ymatebodd JR fod Cyrff Dyfarnu o blaid yr arholiadau'n dechrau ar ôl hanner tymor yr haf. Roedd Lloegr yn ymgynghori ar hyn gydag undebau'r athrawon a gallai newid hefyd olygu diwrnod canlyniadau diweddarach.
 - 2.8. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am gysondeb â Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ymatebodd JR nad oedd dull gweithredu Gogledd Iwerddon yn hysbys eto a bod Lloegr yn bwriadu cynnal ymgynghoriad yn yr wythnos nesaf, ond deallwyd mai ychydig iawn o newidiadau a fwriadwyd ar gyfer cymwysterau yn Lloegr.
 - 2.9. Esboniodd PB, gan fod amodau arbennig newydd a dogfen reoleiddio yn ofynnol ar gyfer cefnogi'r cynigion, y byddai hyn fel rheol yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Rheoleiddio. Cynigiwyd cynnal cyfarfod eithriadol o'r Pwyllgor Rheoleiddio ganol yr wythnos ganlynol (ar ôl adolygiad cyfreithiol o'r dogfennau). Ceisiwyd cymeradwyaeth gan y Bwrdd a phwysleisiodd yr amserlen dynn i frw ymlaen â'r dull gweithredu.
 - 2.10. Cytunodd aelodau'r Bwrdd y byddai angen papur ffurfiol i'w ystyried er mwyn cymeradwyo'r dull gweithredu. Felly byddai awr yn cael ei hychwanegu at gyfarfod eithriadol y Bwrdd ar 7 Gorffennaf pan fyddai angen gwneud penderfyniad ar y dull gweithredu i fodloni'r amserlenni tynn.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

l. Y Bwrdd i ystyried y dull o ymdrin â'r trefniadau ar gyfer Cyfres Haf 2021 i'w gymeradwyo yng nghyfarfod eithriadol nesaf y Bwrdd ar 7 Gorffennaf.

3. Cymeradwyo Modelau Safoni Safon UG a Safon Uwch ar gyfer haf 2020.

- 3.1. Cyflwynodd TA ddeunydd drafft a fwriadwyd er mwyn cyflwyno safoni i'r cyhoedd, a fyddai hefyd yn gwella dealltwriaeth y Bwrdd o'r modelau safoni.
- 3.2. Amlinellodd TA y ddau fodel safoni gwahanol - Model Perfformiad Uniongyrchol Canolfann (*Direct Centre Performance = DCP*) a'r Garfan Uned wedi'i Chwblhau wedi'i Normaleiddio (*Normalised Completed Unit Cohort = NCUC*). Esboniodd TA fod DCP yn cael ei ddefnyddio ar draws awdurdodaethau a bod NCUC yn cael ei gynnig ar gyfer Safon Uwch lle gellid defnyddio perfformiad ar lefel Safon UG i gyfrifo graddau Safon Uwch.¹
- 3.3. Dywedodd aelodau'r Bwrdd fod angen gwneud rhai addasiadau ar y cyflwyniad gan y gallai rhywfaint o'r iaith a ddefnyddir fod yn ddryslyd i'r gynulleidfa arfaethedig.
- 3.4. Yna, siaradodd TA am ei bapur ar y modelau safoni arfaethedig ac argymhellion CBAC ar gyfer Safon UG a Safon Uwch.
- 3.5. Esboniodd TA fod CBAC wedi gallu cyflwyno ystod o opsiynau ond nad oedd eto mewn sefyllfa i egluro pob manylyn. Esboniodd fod y Bwrdd yn cael eu gofyn i benderfynu pa opsiwn y dylid ei ddatblygu ymhellach fel y prif ddull arfaethedig ar gyfer Safon UG ac ar gyfer Safon Uwch.
- 3.6. Esboniodd fod argymhellion CBAC wedi mynd drwy eu gweithdrefnau llywodraethu eu hunain er nad oedd y rhain wedi'u nodi yn y dogfennau.
- 3.7. Yna eglurodd fod y metrigau cywirdeb wedi'u cynhyrchu drwy gymhwyso pob model safoni yng Ngham 1 ac yna defnyddiwyd canlyniadau gwirioneddol 2019 ar gyfer y drefn safoni ar gyfer Cam 2. Pwysleisiodd y gallai'r metrigau cywirdeb felly fod yn wahanol pan ddefnyddir y drefn restrol a gyflwynwyd ar gyfer ymgeiswyr 2020. Roedd y metrigau hefyd yn seiliedig ar y model yn cael ei gymhwyso yn yr un modd i bob ymgeisydd.
- 3.8. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am sicrwydd pellach ar gadernid gweithdrefnau CBAC a'r llywodraethu y tu ôl i'r argymhellion. Ymatebodd TA y bu llawer o waith traws-awdurdodaeth ar ddau o'r modelau a argymhellwyd ar gyfer Safon UG a Safon Uwch. Esboniodd fod y model DCP wedi'i ddatblygu'n wreiddiol gan Cambridge Assessment, a bod y model MRP wedi'i ddatblygu gan Ofqual. Roedd CBAC yn gweithio gyda Chyrff Dyfarnu a rheoleiddwyr ar draws awdurdodaethau. Esboniodd

¹ Defnyddir NCUC yn y cofnodion ar gyfer y model a alwyd wedyn yn fodel Perfformiad Uniongyrchol y Dysgwr (*Direct Learner Performance = DLP*)

ymhellach fod y model DCP yn debygol o gael ei ddefnyddio yn Lloegr (diystyriwyd y model MRP). Roedd y model NCUC a gynigiwyd ar gyfer Safon Uwch yng Nghymru yn seiliedig ar fethodoleg safonol a ddefnyddiwyd gan Gyrrff Dyfarnu mewn cyfnodau 'busnes fel arfer' ar gyfer dyfarnu graddau i ddysgwyr sydd wedi colli rhai o'u hasesiadau (nid oedd defnyddio'r model hwn yn bosibl yn Lloegr lle mae pob cymhwyster yn llinol). Roedd CBAC wedi bod yn gweithio'n agos gyda CCEA ar weithredu'r model NCUC gan fod gan Ogledd Iwerddon gymwysterau unedol hefyd.

- 3.9. Dywedodd aelodau'r Bwrdd yr hoffent i'r broses lywodraethu o CBAC drwy Gymwysterau Cymru gael ei dogfennu.
- 3.10. Yna gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Bwrdd am gwestiynau a sylwadau pellach ar y modelau Safon Uwch arfaethedig.
- 3.11. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd a oedd defnyddio data 2017/18 i ragweld graddau 2019 yn rhesymol fel prawf o gywirdeb y modelau ac a oedd y blynyddoedd hyn yn annodweddiadol mewn unrhyw ffordd. Esboniodd TA, er y byddai mwy o flynyddoedd o ddata wedi'u defnyddio yn ddelfrydol, fod nifer y blynyddoedd o ddata ar y cymwysterau presennol a oedd ar gael i'w profi wedi'u cyfyngu gan yr adeg y dyfarnwyd y cymwysterau gyntaf. Byddai mynd yn ôl ymhellach mewn amser wedi golygu defnyddio data o gymwysterau mwy etifeddol a byddai hefyd yn llai cynrychioliadol o berfformiad presennol y ganolfan.
- 3.12. Cyfeiriodd aelodau'r Bwrdd at 2.9-2.11 yn y papur a gofynnwyd am y risgiau sy'n gysylltiedig â datrys dyfarniadau i ddysgwyr sy'n aileistedd Safon Uwch a dysgwyr heb farciau UG sydd ar gael o'r gyfres flaenorol. Nododd TA y byddai defnyddio trefn restrol y ganolfan yn lliniaru risgiau.
- 3.13. Cyfeiriodd aelodau'r Bwrdd at 4.3 o'r papur ac egluro eu dealltwriaeth, er y gallai fod effaith ar ddysgwyr â nodweddion gwarchoddedig, ar yr amod bod y Bwrdd wedi dewis y model mwyaf rhesymol o dan yr amgylchiadau, y byddai dyletswyddau cyfreithiol wedi'u cyflawni. Nododd aelodau'r Bwrdd nad oedd ymyriad y gellid ei wneud heb dorri trefn restrol y ganolfan.
- 3.14. Cyfeiriodd aelodau'r Bwrdd at dudalen 18 o argymhellion Safon Uwch CBAC a gofyn, mewn pynciau lle mae NCUC yn gor-ragfynegi, sut y gellid cael canlyniadau sy'n debyg yn fras? Cadarnhaodd TA y gallai CBAC wneud addasiadau i symud ffiniau graddau i fyny neu i lawr.
- 3.15. Cyfeiriodd aelodau'r Bwrdd at dudalen 18 o argymhellion Safon Uwch CBAC a mynegwyd pryderon ynghylch defnyddio'r un model ar gyfer popeth pan oedd modelu Sbaeneg a Chyfrifiadureg yn dangos y byddai llai na 50% o ymgeiswyr yn cael y radd hanesyddol wirioneddol gan ddefnyddio'r model NCUC. Mynegwyd pryderon pellach na chyflwynwyd pob pwnc yn y ddogfennaeth ac y byddai angen sicrwydd pellach ar bynciau eraill. Sicrhawyd aelodau'r Bwrdd bod y materion hyn wedi cael eu trafod gyda CBAC ac na ddylai'r Bwrdd roi gormod o bwyslais ar amrywiadau bach rhwng pynciau. Hysbyswyd y Bwrdd hefyd mai bwriad y dewis o bynciau oedd cynnig sampl gynrychioliadol yn hytrach nag ymdrin â phob pwnc.

- 3.16. Dywedodd aelodau'r Bwrdd ei bod yn bwysig penderfynu fel Bwrdd ai'r flaenoriaeth oedd y gyfran uchaf o raddau cywir neu leihau nifer y graddau unigol sy'n debygol o fod allan o ddwy radd neu fwy.
- 3.17. Cytunodd PB i drafod y cynigion ymhellach gyda CBAC ac ystyried a fyddai unrhyw fudd mewn defnyddio cymysgedd o fodelau DCP ac NCUC ar gyfer gwahanol bynciau ar lefel Safon Uwch.
- 3.18. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd a fyddai'r model yn gallu penderfynu a oedd y drefn restrol a gyflwynwyd gan ysgol yn gywir. Dywedodd PB ei bod yn dybiaeth sylfaenol bod y drefn restrol yn gywir gan nad oedd neb heblaw'r athrawon mewn sefyllfa i lunio barn am hynny.
- 3.19. Mynegodd aelodau'r Bwrdd bryderon ynghylch y ffaith bod ymgeiswyr mewn lleoliadau bach yn cael eu trin yn fwy ffafriol nag ymgeiswyr mewn lleoliadau mwy ar lefel Safon UG. Dywedodd TA fod hyn yn cael ei drafod yn helaeth gyda CBAC. Esboniodd TA fod rhagfynegiadau gan fodel ystadegol ar gyfer canolfannau bach yn fwy tebygol o fod yn anghywir ac felly'n cyflwyno mwy o annhegwch. Esboniodd TA fod cynigion CBAC yr un fath yn y bôn ag a gynigiwyd gan Ofqual yn Lloegr – y byddai Graddau Asesu Canolfannau (CAGs) yn chwarae rhan gynyddol po leiaf yw'r ganolfan. Esboniodd ymhellach y byddai effaith gyfanredol hyn ar draws yr holl ganlyniadau ar gyfer pwnc yn debygol o fod yn fach. Dywedodd TA y gofynnir i CBAC ddarparu gwybodaeth am nifer y canolfannau sy'n perthyn i'r categori hwn a beth allai'r effaith fod.
- 3.20. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd beth oedd barn y Tîm Gweithredol am fynd yn ôl i Lywodraeth Cymru pe bai'r gwahaniaethau rhwng GACau a graddau wedi'u cyfrifo yn sylweddol. Nodwyd na fyddai digon o amser i ymgymryd â ffordd wahanol o weithredu a bod y Cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i safoni fynd i'r afael ag anghysondebau rhwng canolfannau. Nodwyd hefyd na ellid cyfiawnhau dyfarnu GACau yn uniongyrchol, heb safoni, tra'n cynnal safonau a thegwch i ddysgwyr gan eu bod wedi'u chwyddo'n sylweddol ac yn anghyson.
- 3.21. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd a oedd hyder y byddai gan y fethodoleg a ddefnyddiwyd hyder y cyhoedd ac os dylid gwneud addasiadau sylweddol i'r dull gweithredu oherwydd bod y GACau a gyflwynwyd yn llawer uwch na'r disgwyl. Nodwyd y byddai problemau o ran hyder y cyhoedd gyda chanlyniadau chwyddedig a bod CC wedi bod yn agored bod proses safoni yn debygol o fod ei hangen.
- 3.22. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd a fyddai ymgeiswyr sy'n aileistedd Safon UG yn elwa'n annheg o'r codiad arfaethedig. Ymatebodd TA mai'r peth iawn, ar y cyfan, oedd codi marciau'r ymgeiswyr sy'n aileistedd; amcangyfrifodd CBAC y byddai hyn yn effeithio ar ychydig iawn o ymgeiswyr.
- 3.23. Cytunodd aelodau'r Bwrdd mai eu tasg oedd cymeradwyo'r gorau a'r mwyaf teg o'r opsiynau a gyflwynwyd i fodloni'r nodau y cytunwyd arnynt ar gyfer canlyniadau haf 2020, er mwyn sicrhau bod y dadleuon a gyflwynwyd dros ddefnyddio'r modelau yn

rhesymol, a gofyn iddynt eu hunain a oedd risg o anghyfiawnder i unrhyw grŵp unigolion nad oeddent wedi'u hystyried.

- 3.24. Cynigiodd PB y dylid ceisio sicrwydd ar fater llywodraethu a gwybodaeth am unrhyw ddadansoddiad o ystod ehangach o bynciau gan CBAC ac y dylid dirprwyo penderfyniad ar unrhyw ddefnydd o fodelau cymysg i'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol.
- 3.25. Gofynnodd y Cadeirydd am bwyntiau pellach ynghylch y modelau a gynigiwyd ar gyfer Safon UG. Ni chodwyd unrhyw bwyntiau pellach.
- 3.26. Roedd y Bwrdd yn fodlon rhoi cymeradwyaeth amodol i'r modelau safoni arfaethedig ar gyfer Safon Uwch a Safon UG yn amodol ar y canlynol:
 - Y ceir nodyn o sicrwydd gan CBAC ar eu proses lywodraethu y tu ôl i'r cynigion;
 - Ceir sicrwydd gan CBAC nad oes unrhyw faterion yn codi mewn unrhyw ddadansoddiad o ystod ehangach o bynciau nad ydynt wedi'u cofnodi yn y cynigion;
 - Yn dilyn mwy o drafodaeth gyda CBAC, dirprwyir unrhyw benderfyniadau ar amrywiadau o'r modelau arfaethedig ar gyfer pynciau penodol i'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol.

Crynodeb o'r Argymhellion/Camau Gweithredu:

- I. **Rhoddodd y Bwrdd gymeradwyaeth amodol i'r modelau safoni arfaethedig ar gyfer pynciau Safon UG a Safon Uwch yn amodol ar y canlynol:**
 - **Y ceir nodyn o sicrwydd gan CBAC ar eu proses lywodraethu y tu ôl i'r cynigion;**
 - **Ceir sicrwydd gan CBAC nad oes unrhyw faterion yn codi mewn unrhyw ddadansoddiad o ystod ehangach o bynciau nad ydynt wedi'u cofnodi yn y cynigion;**
 - **Yn dilyn mwy o drafodaeth gyda CBAC, dirprwyir unrhyw benderfyniadau ar amrywiadau o'r modelau arfaethedig ar gyfer pynciau penodol i'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol.**

4. Unrhyw Fater Arall

- 4.1. Trafododd aelodau'r Bwrdd hawliadau am yr amser a gymerwyd i ddarllen papurau.
- 4.2. Amlinellodd PB y ffordd ymlaen ar gyfer penderfyniadau sydd ar y gweill. Byddai cynigion modelau TGAU cam 2 a cham 3 yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn yr wythnos ganlynol. Byddai cynigion model TGAU cam 1 yn cael eu cyflwyno'r wythnos wedyn, a allai olygu bod angen cyfarfod eithriadol cyn cyfarfod y Bwrdd a drefnwyd ar gyfer 16 Gorffennaf (yn debygol o fod ar 14 Gorffennaf). Byddai cyfarfod eithriadol y Bwrdd ar 7 Gorffennaf yn cael ei ymestyn i ystyried y papur ar egwyddorion Haf 2021

a pharmedrau ar gyfer newid a fyddai'n sail i'r ddogfen reoleiddio sydd i'w chymeradwyo gan gyn-bwyllgor y Pwyllgor Rheoleiddio.

- 4.3. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau.

Diwedd